Cyllid & Tollau EF

# Tai, tir, adeiladau a buddiannau mewn tir

Atodlen IHT405

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon i roi manylion yr holl dir ac adeiladau neu hawliau dros dir (er enghraifft hawliau pysgota) yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt.

Rydym yn rhoi gwybod i chi sut i brisio'r asedion hyn yn ffurflen IHT400, 'Nodiadau'.

Os oes gennych brisiad proffesiynol, dylech amgáu copi gyda'r ffurflen wedi'i llenwi.

## Help

I gael gwybodaeth neu help:

- ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant
- ffoniwch ein llinell gymorth ar 0300 200 1900
  - os byddwch yn ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 300 200 1900

Os oes angen copi arnoch o un o'n ffurflenni neu ein taflenni, gallwch wneud y canlynol:

- lawrlwytho'r ffurflenni o www.gov.uk/government/collections/inheritance-tax-forms
- ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF i'w harchebu

**Enw'r ymadawedig**

**Dyddiad y farwolaeth DD MM BBBB**

**Cyfeirnod Treth Etifeddiant** os yn hysbys

## Manylion y person y dylem gysylltu ag ef ynglyn â phrisio tai neu dir

Llenwch yr adran hon dim ond os yw'r person y dylem gysylltu ag ef yn wahanol i'r un a enwyd ar ffurflen IHT400, blwch 17. Sicrhewch fod y cynrychiolydd personol cyfreithiol wedi rhoi ei ganiatâd i gysylltu â'r person hwn.

1 **Enw a chyfeiriad y cwmni neu'r person sy'n delio â phrisiadau'r tai neu'r tir**

Teitl - nodwch MR, MRS, MISS, MS neu deitl arall

Enw

Cod post

Rhif y tŷ neu'r adeilad

Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat

2 **Enw'r cyswllt, os yw'n wahanol i'r enw ym mlwch 1**

3 **Rhif ffôn**

4 **Rhif DX a'r dref (os defnyddir un)**

5 **Cyfeirnod y cyswllt**

## Manylion yr eiddo

Rhowch fanylion pob eitem o eiddo. Defnyddiwch mwy nag un ffurflen os oedd yr ymadawedig yn berchen ar nifer fawr o eiddo.

**Rhif yr eitem** - Rhowch rif i bob eitem o eiddo.

**Cyfeiriad llawn neu ddisgrifiad o'r eiddo** - Rhowch y cyfeiriad neu ddisgrifiad llawn o'r eiddo. Os nad oes rhif gan yr eiddo neu os mai tir fferm neu dir arall heb gyfeiriad ydyw, amgaewch gynllun sy'n dangos ffiniau'r eiddo'n glir.

**Daliadaeth** - Nodwch p'un a oedd yr ymadawedig yn berchen ar yr eiddo yn llwyr (rhydd-ddaliadol) neu os oedd prydles (prydlesol). Nodwch nifer y blynyddoedd sydd ar ôl ar y brydles a'r rhent tir blynyddol ar gyfer eiddo prydlesol.

**Manylion gosodiadau/prydlesa**u - Os oedd yr ymadawedig yn gosod yr eiddo, rhaid i chi ddarparu copi o'r brydles, isbrydles, cytundeb y denantiaeth fusnes neu amaethyddol. Os nad yw'r wybodaeth isod wedi ei chynnwys yn y brydles, isbrydles ac ati, neu os nad oes cytundeb ysgrifenedig, nodwch y canlynol yn y golofn hon:

- y dyddiad y dechreuodd y denantiaeth/brydles
- y dyddiad y mae'r denantiaeth i fod i ddod i ben
- pa rent sy'n daladwy a ph'un a ellir adolygu'r rhent
- pwy sy'n gyfrifol am y treuliau ar yr eiddo
- enw'r tenant

Os oedd yr eiddo'n wag ar ddyddiad y farwolaeth, ysgrifennwch 'yn wag'.

**Gwerth y Rhyddhad Amaethyddol, Busnes neu Goetiroedd neu'r esemptiad o ran treftadaeth** - Os ydych yn didynnu Rhyddhad Amaethyddol, Rhyddhad Coetiroedd, Rhyddhad Busnes neu'n hawlio esemptiad o ran treftadaeth, nodwch werth yr eiddo y dywedwch sy'n gymwys am ryddhad neu eithriad.

**Ni allwch ddidynnu Rhyddhad Busnes ar fusnesau sy'n delio gydag eiddo neu fuddsoddiadau.**

Ar gyfer marwolaethau ar ac ar ôl 6 Ebrill 2026, mae rhyddhad o 100% ar werth cyfunol eiddo amaethyddol a/neu eiddo busnes cymhwysol wedi'i gyfyngu i £2.5 miliwn. Bydd y gwerth hwn yn cynnwys unrhyw eiddo cymhwysol a roddwyd fel rhoddion ar neu ar ôl 30 Hydref 2024 ac o fewn 7 mlynedd i'r farwolaeth yn ogystal ag eiddo arall (gan gynnwys eiddo'r ymddiriedolaeth) sy'n cael ei drin fel rhan o'r ystâd. Pan fo cyfanswm gwerth yr eiddo cymhwysol yn fwy na £2.5 miliwn, bydd yr hyn sydd dros ben yn gymwys i gael rhyddhad ar raddfa o 50%.

Gellir trosglwyddo lwfans o £2.5 miliwn heb ei ddefnyddio gan ddiweddar briod neu bartner sifil i ystâd yr ymadawedig, ar yr amod bod yr hawliad yn cael ei wneud o fewn 4 mlynedd i farwolaeth y goroeswr neu o fewn 6 mis i'r cyfnod y mae'r cynrychiolwyr personol yn dechrau eu rôl.

## Preswylfa'r ymadawedig

6

| A - Rhif yr eitem | B - Cyfeiriad llawn neu ddisgrifiad o'r eiddo | C - Cod post yr eiddo | D - Daliadeth (Er enghraifft, rhydd-ddaliadol neu brydlesol. Os yw'n ddaliadaeth brydlesol nodwch hyd y brydles a'r rhent tir blynyddol, os yn briodol) | E - Manylion gosodiadau/prydlesau | F - Gwerth Rhyddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes ar 100% neu ddidynnu Rhyddhad Coetiroedd neu esemptiad o ran treftadaeth £ | G - Gwerth Rhyddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes ar 50% £ | H - Gwerth ar y farchnad agored ar ddyddiad y farwolaeth £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | 6 | £ | £ | £ |

Cyfanswm y golofn H uchod - copïwch y swm hwn i ffurflen IHT400, blwch 51

## Tir, adeiladau a hawliadau dros dir arall

Ar gyfer hawliau dros dir (er enghraifft, hawliau pysgota neu gloddio) rhowch fanylion yr hawliau hynny, yn ogystal â manylion am y tir.

7

| A - Rhif yr eitem | B - Cyfeiriad llawn neu ddisgrifiad o'r eiddo | C - Cod post yr eiddo | D - Daliadeth (Er enghraifft, rhydd-ddaliadol neu brydlesol. Os yw'n ddaliadaeth brydlesol nodwch hyd y brydles a'r rhent tir blynyddol, os yn briodol) | E - Manylion gosodiadau/prydlesau | F -Gwerth Rhyddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes ar 100% neu ddidynnu Rhyddhad Coetiroedd neu esemptiad o ran treftadaeth £ | G - Gwerth Rhyddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes ar 50% £ | H - Gwerth ar y farchnad agored ar ddyddiad y farwolaeth £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | 7 | £ | £ | £ |

Cyfanswm y golofn H uchod – copïwch y swm hwn i ffurflen IHT400, blychau 68 i 70

Dylech wneud yn siwr bod cyfanswm gwerth yr eiddo ar y ffurflen hon yn cael ei adlewyrchu ar ffurflen IHT400. Dylech gynnwys gwerth Rhyddhad Amaethyddol, Busnes neu Goetiroedd ar ffurflen IHT400, blwch 93. Bydd angen i chi lenwi ffurflen IHT413, 'Business and partnership interests and assets' hefyd os ydych wedi didynnu Rhyddhad Busnes neu IHT414, 'Agricultural relief' os ydych wedi didynnu Rhyddhad Amaethyddol.

## Ffactorau arbennig a allai effeithio ar y gwerth

**8** **A oedd unrhyw eiddo a restrwyd ar y ffurflen hon yn destun unrhyw ffactorau arbennig, er enghraifft difrod sylweddol neu botensial i ddatblygu, a allai effeithio ar eu gwerth? Efallai y bydd unrhyw ddifrod i'r eiddo, sy'n cael ei gwmpasu gan yswiriant adeiladau, yn effeithio ar y ffordd y byddwn yn ei brisio.**

Nac oedd ☐ Ewch i flwch 11 Oedd ☐ Rhowch fanylion gan roi'r un rhifau ar gyfer yr eitem a ddefnyddiwyd yn y golofn gyntaf gan ddechrau ar dudalen 2

| Rhif yr eitem | Manylion y ffactorau arbennig. Amgaewch gopi o'r tirfesuriad neu adroddiad y peiriannydd adeileddol, neu hysbysiad o gymeradwyaeth cynllunio, os yn briodol |
|---|---|
| | |

Os oedd yr eiddo wedi ei ddifrodi, ewch i flwch 9, fel arall ewch i flwch 11.

**9** **A oedd yswiriant yr ymadawedig yn cwmpasu'r atgyweiriadau cyfan neu ran ohonynt?**

Nac oedd ☐ Oedd ☐

**10** **A ydych yn bwriadu gwneud cais am dâl o dan bolisi yswiriant yr ymadawedig?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐ Os Ydw, atodwch gopïau o unrhyw ohebiaeth a gawsoch gyda'r yswirwyr neu'r addaswyr colledion

## Gwerthiant eiddo

**11** **A oes unrhyw eiddo wedi eu gwerthu neu a oes gennych unrhyw fwriad i'w gwerthu o fewn 12 mis o ddyddiad y farwolaeth?**

Nac oes ☐ Rydych wedi gorffen y ffurflen hon Oes ☐ Rhowch fanylion gan roi'r un rhifau ar gyfer yr eitem a ddefnyddiwyd ar dudalennau 2 a 3

| A - Rhif yr eitem | B - Nodwch p'un a yw'r eiddo 'eisoes wedi ei werthu', 'ar y farchnad nawr' neu 'caiff ei werthu'n hwyrach'. Os gwerthwyd yr eiddo, rhowch y dyddiad y cyfnewidiwyd y cytundebau (neu 'missives concluded' ar gyfer eiddo yn yr Alban) | C - Y pris y gofynnir amdano (neu'r pris a gytunwyd). Peidiwch â didynnu costau'r gwerthiant £ | D - Nodwch p'un a oedd y/yw'r gwerthiant i berthynas, ffrind neu gydweithiwr busnes yr ymadawedig | E - Pris ar gyfer gosodiadau, carpedi a llenni, os ydynt wedi eu cynnwys yn y pris £ | F - A ydych am ddefnyddio pris gwerthu fel gwerth yr eiddo ar ddyddiad y farwolaeth? Ydw/Nac ydw |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |